# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Bodedern a gynhaliwyd
dydd Mercher, 27 Ebrill 2022 am 7 yr hwyr dros zoom.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

**Presennol:** JF, BH, LJ, JAR (Cadeirydd), EABT, RWO (clerc)

Ymddiheuriadau: VO.

**2. Datgan Diddordeb:** Dim

**3. Arwyddo cofnodion Mawrth 2022.**

Derbynwiyd y cofnodion fel rhai cywir.

LJ yn cynnig, JF yn eilio.

**4. Materion yn codi**

4.1 Y clerc wedi ymateb i CSYM yn nodi anfodlonrwydd i'w bwirad i beidio ac ail osod twmpathau arafu traffic yn Bron y Graig. Dim ymateb hyd yn hyn, ond y clerc i barhau i fynegi pryder y cyngor.

4.2 Y clerc yn disgwyl cadarnhad gan yr adran dai ynglyn a defnyddio'r lolfa i rannu arian elusen David Williams.

4.3 Yn dilyn penderfyniad Ffrindiau Bodedern i bedio a parhau gyda gwaith yn y parc, derbyniwyd adroddiadau gan gynghorwr fod aelod o Ffrindiau Bodedern yn nodi fod y gwaith torri yn y fynwent a' parc wedi dod i ben gan y contractwr oherwydd pryderon yn system talu y Cyngor. (Nodir nad oes unrhyw bryder wedi ei fynegi i'r Cyngor gan y contractwyr) Nodwyd fod cyhuddiadau fel hyn yn ni-weidiol iawn i'r Cyngor ac i'r unigolion sy'n ymwneud a'r system talu. Y clerc i wneud cais am gyngor gan Un Llais Cymru.

**5. Ffrindiau Bodedern.**

5.1 Drafftwyd llythyr ymateb i Ffrindiau Bodedern yn dilyn eu statws Facebook. Y clerc i'w addasu yn dilyn adborth y Cyngor.

5.2 Y clerc i wneud ymholiadau gyda CSYM ynglyn a gwagio'r bin yn y parc.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

**6. Deddf Cynllunio a Gwlad**

Dim

**7. Gohebiaeth i'w adolygu.**

7.1 Parc Solar Traffwll– llythyr yn manylu cyfeiriad gwefan am wybodaeth pellach.

7.2 S.P. Energy yn gofyn caniatad i dorri coed yn y fynwent. Y clerc i gadarnhau fod caniatad mewn lle, cyn belled na fydd cost i'r Cyngor, ac i gadarnhau ymhellach na fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod na waith ychwanegol bydd yn cael eu greu fel canlyniad i'r gwaith.

7.3 Derbyniwyd dyfnbrisiau ynglyn a'r gwaith torri yn y parc a'r fynwent. Cytunwyd i dderbyn pris gan Mr. Leigh Thomas.

**8. Talaidau i'w gwneud.**

Dim.

**9. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.**

9.1 Nodwyd bydd angen cyf-ethol unigolion o gyfarfod mis Mai ymlaen (5 sedd wag)

9.2 Y cadeirydd yn diolch i bawb am eu gwasanaeth a'u cyfryniadau dros y tymor diwethaf, a nodi bod y Cyngor yn ymuno a Bro'r Llynnoedd o fis Mai ymlaen.

**10. Dyddiad cyfarfod nesaf.**

16 Mai 2022 dros zoom.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com